

# **Rhifyn 54**

## **Gwyliau gwych**

## Yr ŵyl (1)



Dwi'n cael amser gwych. Mae pedwar llwyfan yma.  
Mae'r bandiau byw yn canu arnyn nhw bob nos.  
Mae'n anodd dewis ble i fynd weithiau – mae pob  
band mor dda.

Dw i ddim yn cael llawer o gwsg. Rydyn ni'n  
mwynhau'r gerddoriaeth tan oriau mân y bore. Rydyn  
ni'n dawnsio yn y caeau hefyd. Mae hi'n dal yn  
gynnes yng nghanol y nos!

Dw i ddim wedi ymolchi ers dydd Gwener. Mae fy  
nillad i'n fwdlyd. Maen nhw'n ddrewllyd hefyd. Bydd  
rhaid i fi eu taflu nhw cyn gadael! Mae'r toiledau'n  
OFNADWY!

Mae hi wedi bod yn bwrw glaw yn drwm iawn. Mae  
mwd ymhobman. Ych a fi! Mae fy mwyd i'n sych,  
diolch byth! Maen nhw yn y wheelie bin des i gyda fi.

Dw i'n cysgu mewn pabell. Mae hi reit yng nghanol y  
cae. Dw i'n cael problemau ei ffeindio hi weithiau.  
Mae llawer o bebyll yn edrych yr un fath.  
Edrych ymlaen at dy weld di a'r band mewn  
pythefnos.

Alex



*Ceri Smith*

*10 Ffordd y*

*Bryn*

*Dinbych*

*LL98 7XX*

# Paraffest

Gorffennaf 27-29, 2018  
Gŵyl flynyddol

# PARAFFEST

LLANBEDR, GWYNEDD

- paragleidio, barcuta a pharafoduro dros arfordir bendigedig gorllewin Cymru a dros fynyddoedd ysblennydd Eryri
- stondinau bwyd
- ardal plant
- gweithgareddau amrywiol
- cerddoriaeth fyw tan ganol nos ar y nos Wener a'r nos Sadwrn
- disgo tan oriau mân y bore
- gwersylla mewn pebyll ac iwrts cyfforddus iawn (ar faes lle mae cawodydd poeth a thoiledau go iawn)

Dewch yn llu!  
Gyrrwch yma ...  
Cerddwch yma ...  
Beiciwch yma ...  
Hedfanwch yma ...  
CROESO CYNNES I BAWB

PENWYTHNOS MWYAF CYFFROUS YR HAF!  
Byddwch chi wrth eich bodd yma!

## Geirfa

Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
paragleidio	camp lle mae darn o ganopi, fel parasiwt, yn cael ei gysylltu â chorff person fel ei fod yn gallu llithro'n llyfn drwy'r awyr ar ôl neidio o uchder, neu gael ei ollwng o uchder	paragliding
barcuta	camp lle mae person yn hedfan peiriant sy'n cynnwys ffrâm wedi ei gorchuddio â lliain, ond sydd heb injan; mae'r person yn hongian o'r peiriant	hang-gliding
parafoduro	camp lle mae person yn hedfan parasiwt sydd ag injan a phropelor	paramotoring
oriau mân y bore	yn gynnar iawn yn y bore	the small hours (of the morning)
iwrts	lluosog iwrt; ffrâm o bren a defnydd; cartref llwythi crwydrol Mongolia, Twrci a Siberia	yurts

# O dan y dŵr

Edrychwch ar y clip fideo yma. Mae'n dangos gŵyl arbennig iawn sy'n digwydd yn Looe Key Reef, Florida.

<https://www.youtube.com/watch?v=0LFv7ra7zQs>

Pa fath o ŵyl sy'n cael ei dangos yn y clip?

Beth sy'n digwydd yn ystod yr ŵyl yma?

- Chwiliwch am gliwiau.
- Gwrandewch ar y gerddoriaeth.
- Sylwch ar yr offerynnau.
- Sylwch ar ddillad y bobl.
- Sylwch ar y lleoliad.

Pam mae'r ŵyl yn cael ei chynnal?

Gwylwch eto er mwyn ceisio cael yr atebion i'r cwestiynau uchod.

# Yr ŵyl (2)

Galwad ffôn.

<b>Chris:</b>	Haia, Daya.
<b>Daya:</b>	Ti'n mynd mas heno?
<b>Chris:</b>	Fi'n mynd i aros yn nhŷ Lyn. Be' ti'n wneud?
<b>Daya:</b>	Cyrri.
<b>Chris:</b>	Sori?
<b>Daya:</b>	Cyrri. Fi'n coginio cyrri drwy'r dydd - drwy'r bore ... drwy'r prynhawn ... drwy'r nos.
<b>Chris:</b>	Pam?
<b>Daya:</b>	Fi yn yr ŵyl.
<b>Chris:</b>	O, ie, fi'n cofio nawr. Shwt mae'n mynd?
<b>Daya:</b>	Mae'n waith caled. Fi'n helpu i baratoi'r llysiau ... <i>serfo</i> ... a clirio'r <i>mess</i> .
<b>Chris:</b>	Oes llawer o <i>fess</i> 'te?
<b>Daya:</b>	Wel, mae rhai pobol jyst yn towlu'r cartons cyrri gwyn ar y llawr ar ôl pennu. Dy'n nhw ddim yn rhoi nhw yn y bins.
<b>Chris:</b>	Ofnadw!
<b>Daya:</b>	Ac, wrth gwrs, mae rhai pobol yn byta gormod o gyrru ac maen nhw'n chwydu ar y stryd.
<b>Chris:</b>	Ych a fi! Dim ond cyrri sy yn yr ŵyl?
<b>Daya:</b>	Ie - ond mae gwahanol fathau o gyrru 'ma. Cyrri o wahanol rannau o'r byd.
<b>Chris:</b>	Mae'n swnio'n grêt.
<b>Daya:</b>	Ody, mae'r bwyd yn lyfli. Fi wedi blasu cyrri newydd sbon - o Jamaica. <i>Gorgeous!</i>
<b>Chris:</b>	Beth arall sy'n digwydd?
<b>Daya:</b>	Mae <i>experts</i> yn dangos sut i wneud cyrri ...
<b>Chris:</b>	Jyst y peth ar gyfer yr adeg yma o'r flwyddyn.
<b>Daya:</b>	Ti'n iawn. Mae pobol isie dysgu sut i gwcio rhywbeth i gynhesu nhw.
<b>Chris:</b>	Be arall sy'n digwydd?
<b>Daya:</b>	Mae lot fowr o stondinau cyrri, wrth gwrs a stondinau'n gwerthu cynhwysion ar gyfer gwneud cyrri. Mae pobol yn chwarae cerddoriaeth ac mae dawnswyr 'ma hefyd. Mae gweithgareddau i'r plant ...
<b>Chris:</b>	So, ti <b>yn</b> mwynhau.
<b>Daya:</b>	Odw a na'dw. Mae'r ŵyl yn wych ond fi ddim yn hoffi'r holl waith.
<b>Chris:</b>	Fi'n gallu deall 'ny.
<b>Daya:</b>	Mae pawb yn hapus iawn. Mae miloedd o bobol wedi bod 'ma - mae'n gyfle da i wneud y siopa Nadolig ac i gael pryd da o fwyd yn eitha rhad yr un pryd. Mae Dad wrth ei fodd achos mae'n gyfle da i hysbysebu'n tŷ byta ni.
<b>Chris:</b>	Mae Mam a Dad isie dod i'ch tŷ byta chi wythnos nesaf.
<b>Daya:</b>	O, pam?
<b>Chris:</b>	Pen-blwydd.
<b>Daya:</b>	Pen-blwydd dy fam, ife?
<b>Chris:</b>	Na, pen-blwydd Dad.
<b>Daya:</b>	O.K. 'na i weud wrth Dad. Hei, rhaid i fi fynd. Mae angen pilio winwns.
<b>Chris:</b>	O.K., wela i di wythnos nesa.

# Gŵyl yn y ddinas

Edrychwch ar y sioe sleidiau yma.



# Rhwng dau fynydd

Edrychwch ar y sleidiau ac yna ewch i Dasg 1.





# Yr ŵyl (3)

Ysgol Gyfun y Llan  
Llan-aber  
Ceredigion  
SA89 6TT

Y Cyfarwyddwr  
Dylunio Dawnus  
Llan-aber  
Ceredigion  
SA67 5YF

12 Mai 2018  
Annwyl Mr Williams,

Ysgrifennaf ar ran pwyllgor **Gŵyl Gwylanod** yr ysgol i ddiolch i chi am eich cefnogaeth i'r ŵyl, 5-7 Mai. Diolch i'ch cefnogaeth chi a busnesau a mudiadau lleol eraill, a, diolch i roddion gan bobl oedd yn methu dod i'r penwythnos, llwyddom i godi dros £20 000 i'r hosbis leol.

Credaf fod pawb wedi mwynhau'r ŵyl yn fawr. Roedd y sesiwn bandiau yn y Neuadd nos Wener yn gyffrous tu hwnt ac roedd hyn yn gyfle gwych i roi llwyfan i leisiau newydd yr ardal. Roedd hi'n amlwg fod digon o hwyl i'w gael ar y dydd Sadwrn hefyd, gyda'r plant yn gwneud gweithgareddau amrywiol ar y traeth yn yr heulwen braf a'r bobl ifanc a'r oedolion yn mwynhau gwahanol gystadlaethau morol, heb sôn am y stondinau crefftau a bwyd y môr a oedd ar hyd yr harbwr. Trueni bod y tywydd wedi ein gorfodi i symud llawer o'r gweithgareddau o'r harbwr a'r traeth i'r ganolfan hamdden ar y dydd Sul ond diolch byth ein bod wedi cynllunio ar gyfer pob math o dywydd!

Bydd darn am yr ŵyl ar S4C yn y dyfodol agos. Byddaf yn rhoi gwybod i chi pryd yn union pan gaf y wybodaeth oddi wrth y cwmni fydd yn darlledu.

Mae fy nghyd-ddisgyblion a minnau wedi mwynhau trefnu'r ŵyl yn fawr ac rydym wedi cael llawer o brofiadau gwerthfawr wrth wneud hyn. Roedd cael cefnogaeth busnesau lleol fel chi yn help mawr. Felly, diolch unwaith eto.

Yn gywir,  
Lee Evans

## Geirfa

Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
ar ran	dros bobl eraill	on behalf of

<b>Cymraeg</b>	<b>Disgrifiad</b>	<b>Saesneg</b>
mudiadau	lluosog mudiad; grwpiau o bobl sy'n rhannu'r un syniad ac sydd, o bosib, yn ceisio cydweithio	movements
amrywiol	gwahanol fathau	varied
darlledu	dangos ar y teledu	(to) broadcast
fy nghyd-ddisgyblion	y disgyblion eraill	my fellow pupils

# Gŵyl gemau

Gŵyl Gemau Cymru

[gŵylgemau.cymru](http://gŵylgemau.cymru)

Edrychwch ar y lluniau yma.

Beth ydy'r cysylltiad rhwng y pethau a'r bobl yn y lluniau, tybed?



Meddyliwch am hyn ac yna ewch i Dasg 1.



# Gwyllo'r anifeiliaid yn ein gwyllo ni

## Gwyllo'r anifeiliaid yn ein gwyllo ni

Mae gwyllo cerdd yn boblogaidd iawn dros yr haf, wrth gwrs, ac maen nhw'n digwydd ar draws y byd. Dyma gyfle i bobl ifanc (a phobl sydd ddim mor ifanc!) ddod at ei gilydd i fwynhau sesiynau byw gyda bandiau a cherddorion dawnus (a rhai sydd ddim mor ddawnus!). Dyma gyfle hefyd i fwynhau cwmni ffrindiau hen a newydd, i ddawnsio ac i ymlacio. Mewn gair, dyma gyfle i FWYNHAU ac i anghofio am broblemau bywyd a helyntion y byd.

### Gŵyl Sŵ Trydanol Efrog Newydd

Dyna beth sy'n digwydd yng ngŵyl flynyddol Sw Trydanol Efrog Newydd hefyd, gyda miloedd o bobl yn tyrru yma o bellafodd y ddaear i ddatlu penwythnos Gŵyl Lafur ac i fwynhau cerddoriaeth electronig. Mae bandiau enwocaf y byd yn dod yma i berfformio bob blwyddyn ac eleni, bydd yr ŵyl, fydd yn cael ei chynnal o 31 Awst tan 2 Medi, yn ddeg oed. Maen nhw'n addo'r ŵyl fwyaf a'r fwyaf cyffrous erioed – gŵyl i'w chofio mae'n siwr!

Ond roedd gŵyl y llynedd yn un fythgofiadwy hefyd! Roedd rhywbeth ynddi oedd yn gwneud i'r partiŵyr stopio am ennyd ac i ystyried. Yn edrych i lawr arnyn nhw, o'r coed tal, roedd lluniau o bennau anifeiliaid. Yn eu tro, roedd pen llew, gorila, eliffant, igwana, tylluan ac anifeiliaid eraill yn gwyllo pawb, gyda'u llygaid yn dilyn y partiŵyr yng nghanol yr holl firi!

### Animal Watching

Gosodiad celfyddydol o'r enw Animal Watching oedd hyn a'r bwriad oedd codi ymwybyddiaeth y bobl bod cynefinoedd yr anifeiliaid o dan fygythiad. Mewn geiriau eraill, tra roedden nhw'n mwynhau eu hunain, roedd dyn yn rhywle arall yn dinistrio cynefinoedd, yn lladd anifeiliaid ac yn difetha ecosystemau.

Os ydych chi eisiau gweld peth o'r gwaith, cliciwch ar y wefan yma ac edrychwch ar Animal Watching @ Electric Zoo, New York. Sylwch yn arbennig ar wynebau'r anifeiliaid:

<https://lifeandsoulmagazine.com/2017/09/15/animal-watching-animated-animals-gaze-at-passersby-to-raise-awareness-of-habitat-destruction/>

Maizz Visual greodd y gosodiad, ar sail adroddiad gan y WWF\* a oedd yn dangos bod hanner yr anifeiliaid gwyllo yn y byd wedi diflannu oddi ar wyneb y ddaear yn ystod y 42 mlynedd diwethaf, o ganlyniad i weithredoedd dyn. Rydyn ni'n eu lladd nhw ... rydyn ni'n llygru eu hamgylchedd ... rydyn ni'n dinistrio'u cynefinoedd. Mae hyn yn anhygoel! Mae hyn yn anfoesol!

Mae Maizz Visual yn bwriadu mynd â'r gosodiad i wyllo ar hyd a lled y byd er mwyn codi ymwybyddiaeth mwy o bobl o'r perygl, felly ga i roi her i wyllo Cymru? Beth am geisio denu'r gwaith hwn i rai o wyllo Cymru eleni – neu o leiaf beth am i ni feddwl am ffordd arall o geisio gwneud pobl yn ymwybodol o ganlyniadau ein gweithredoedd ni ar fywyd gwyllo? Mae'n ddigon hawdd i ni ymgolli yn y gerddoriaeth ... a'r dawnio ... a'r gwmniaeth ... a'r mwynhad, ond allwn ni ddim o ddifri droi ein cefnau ar bethau pwysicach y byd!

Beth amdani, drefnwyr gwyllo Cymru?

\* Os hoffech chi wybod mwy am yr WWF, ewch i:

<https://www.wwf.org.uk/yngghylch-wwf-cymru>

Roedd y gosodiad yn awgrymu bod yr anifeiliaid hyn yn gwylio dyn a'u bod nhw'n anhapus iawn gan ei fod mor ddinistriol.

<https://www.youtube.com/watch?v=jstCqO9mWn8>

## Geirfa

Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
Gŵyl Lafur	gŵyl Americanaidd i ddangos parch tuag at weithwyr a'u gwaith, ar y dydd Llun cyntaf ym mis Medi. Mae'n gyfle i gael diwrnod o wyliau ac i ffarwelio â'r haf.	Labour Day
taflunio	dangos llun ar sgrin neu ar ryw wrthrych arall	(to) project
miri	hwyl, rhialtwch	fun
gosodiad celfyddydol	darn o gelf sy'n cael ei osod yn rhywle	art installation
ymwybyddiaeth	bod yn ymwybodol o rywbeth	awareness
cynefinoedd	lluosog cynefin; lle mae'r anifeiliaid yn byw	habitats
o dan fygythiad	mewn perygl	under threat
dinistrio, difetha	distrywio	(to) destroy